

RHAGARWEINIAD

Mae cynhyrchu ffrwythau bychain wedi bod yn destun llawer o ddi-ddordeb yn ddiweddar oherwydd addasrwydd llawer o ardaloedd i gynhyrchu'r ffrwythau hyn, a'u nodweddion iachusol. Mae llawer o ffrwythau bychain yn cynnwys llawer o wrthocsidyddion (fitamin C er enghraifft), sy'n lleihau effeithiau heneiddio, yn cynnwys gostwng y risg o gael clefyd y galon. Hefyd mae'r nodweddion hyn yn golygu bod y ffrwythau'n gwerthu'n dda.

Yn draddodiadol mae cynhyrchu aeron wedi dibynnu ar bobl i'w casglu â llaw pan maent yn aeddfed ac un o'r prif ardaloedd cynhyrchu yw glannau afon Tay yn Yr Alban. Roedd y diwydiant hwn yn gysylltiedig â'r diwydiant cynhyrchu jam yn Dundee. Yno mae'r farchnad ffrwythau ffres wedi cynyddu gan ddefnyddio dulliau i amddiffyn y cnydau (canopïau plastig a godir dros y cnydau fel rheol). Y cnydau traddodiadol oedd mefus a mafon. Cefnogwyd y diwydiannau hyn gan The Scottish Crops Research Institute sy'n bridio planhigion a chynnal rhaglenni cysylltiedig.

Ymhlith y problemau sy'n wynebu'r diwydiant mae cystadleuaeth o ddwyrain Ewrop lle cynhyrchir ffrwythau'n rhad. Mae'r diwydiant prosesu wedi tra-arglwyddiaethu dros y diwydiant cyrens duon gan arwain at gontractau mawr fel rheol ag un cyflenwr sy'n cynhyrchu diodydd cyrens duon. Mae'r diwydiant wedi ceisio symud o'r rhigol hon yn ystod y blynyddoedd diwethaf ac efallai bod hyn yn gyfle i gynhyrchwyr yng Nghymru.



Ffig 1: Llus yn ffrwytho

CNYDAU AERON AMGEN

Mae gan gnydau aeron anfanteision o ran marchnata. Yn un peth maent yn dirywio'n gyflym ac efallai y bydd angen loriau rhewi i'w cludo. Gydag aeron dyfrllyd, megis mefus a mafon, mae'n well eu cynhyrchu'n agos at y farchnad, tra gellir cludo rhai aeron eraill ymhellach heb eu niweidio. Yn Nhabl 1 ceir rhestr (er nad yw'n gyflawn o bell ffordd) o rai enghreifftiau o gnydau aeron.

Tabl 1. Rhai cnydau aeron sy'n addas i'w cynhyrchu yng Nghymru.

Enw'r Aeron	Rhagolygon
Mwyar duon ac aeron tebyg e.e mwyar Logan	Anodd i'w hel ond posibilrwydd o farchnad leol, prosesu a phrosesu ffrwythau cymysg
Mafon	Marchnad ffres a'r diwydiant arlwygo
Mefus	Marchnad ffres a'r diwydiant arlwygo
Cyrens (duon, coch a gwyn)	Prosesu, peth marchnad ffres
Llus	Marchnad ffres, sychu, arlwygo
Llugaeron	Marchnad ffres, sychu, prosesu
Criafol	Prosesu i'w bwyta gyda gêm
Helyg y Môr	Prosesu a rhoi blas
Ysgaw	Diodydd

CHWILIO AM STOC

Fel rheol bydd angen i stoc ar gyfer cynhyrchu ffrwythau fod yn lân oddi wrth firsau a all gyfyngu ar eu cynnyrch. Darperir stoc ardstyedig o blanhigion sydd wedi cael eu meithrin o dan amodau priodol i gynhyrchu stoc heb firsau. Felly, dim ond gan gyflenwyr arbenigol y gellir cael rhai ffrwythau masnachol fel rheol. Fodd bynnag, nid oes gan lawer o ffrwythau amgen broblemau mawr gyda firsau. Mae yna gwmnïau arbenigol yn y DU sy'n cynhyrchu mefus, mafon a llus. Efallai y bydd yn rhaid cael llugaeron a rhai mathau o lus o Ogledd America, tra bydd angen chwilio am griafol, ysgaw a helyg y môr dramor neu eu datblygu'n unigol o linachau cynhyrchu addas.

SYSTEMAU CYNHYRCHU

Mae yna ddulliau sydd wedi hen ennill eu plwyf ar gyfer cynhyrchu mafon a mwyar duon. Fel rheol maent yn cael eu clymu wrth ffyn ar hyd rhesi o wifrau gyda digon o le i dractor bach fynd rhwng y rhesi i drin y tir. Fel rheol caiff y planhigion eu tocio ar ôl iddynt ffrwytho. Mae dyfrhau a gwrtaith organig da yn gwella cynnyrch.

llwyni cyrens: fel rheol tyfir y rhain mewn patrwm grid gan roi digon o le unwaith eto i dractor bach fynd rhyngddynt i drin y tir. Mae canghennau hyn sy'n dwyn ffrwyth yn gwella wrth gael eu tocio. Ceir gwell cynnyrch wrth ddyfrhau a rhoi gwrtaith organig da.

Mefus: tyfir y rhain fel rheol mewn caeau gyda gwellt wrth eu bôn rhag iddynt bydru wrth gyffwrdd y pridd. Fodd bynnag, yn gynyddol erbyn hyn maent yn cael eu tyfu mewn polythen ar feinciau wedi eu codi (i uchder priodol) i hwyluso eu hel ac i leihau difrod i'r ffrwyth. Fel rheol, dim ond unwaith y caiff planhigion eu cludo i mewn a'u tocio pan maent yn y fframiau hyn.

Llus: mae dau fath ar gael – sef llwyni uchel neu isel – ac fel rheol mae pridd asid gyda sylwedd organig da yn hanfodol i gael cnwd. Tyfir llwyni mewn rhesi fel rheol.

Llugaeron: tyfir y rhain mewn gwelyau matig dan amodau asidig. Nid yw gorlifo'n hanfodol i gael cnwd ond mae o gymorth wrth gynaeafu.

Criafol a helyg y môr: nid oes system gynhyrchu safonol ar gyfer y rhain gan nad ydynt wedi cael eu datblygu'n llawn eto fel cnydau masnachol.



Ffig 2: Helyg y môr yn ffrwytho

Problem cynaeafu ffrwythau bychain yw un o'r elfennau pwysicaf sy'n gysylltiedig â'u cynhyrchu. Mae'r diwydiant wedi bod yn dibynnu'n drwm ar hel â llaw ond mae'r gwaith hwn yn dymhorol iawn ei nature. Felly, mae casglu aeron yn dibynnu i raddau helaeth ar fod llafur ar gael. O ganlyniad dibynnwyd llawer ar blant ysgol yn ystod y gwyliau a chymorth gan weithwyr symudol. I gyfiawnhau prynu peiriannau cynaeafu mae angen llawer o aceri ac mae'n annhebygol y gellir cyfiawnhau hynny yn achos y rhan fwyaf o gnydau ffrwythau bychain y mae rhywun yn debygol o ddod ar eu traws yng Nghymru.

Tra bo costau'n bur amrywiol, a thu hwnt i faes y papur hwn, dylid nodi y gall rhai planhigion gymryd peth amser i ffrwytho ac felly ceir oedi cyn dechrau ennill yn ôl unrhyw arian a wariwyd. Yn Nhabl 2 ceir brasamcan o'r amser disgwyl i gael cnydau boddhaol o aeron bychain.

Tabl 2. Amseroedd tebygol i gael cnwd cyntaf o blanhigion aeron bychain

Cnwd	Brasamcan o'r amser tan y cynhaeaf cyntaf
Mwyar duon ac aeron tebyg	3 blynedd
Mafon	2+ blynedd
Mefus	Yr un tymor
Cyrens (du, coch a gwyn)	4 – 5 mlynedd
Llus	4 – 7 mlynedd
Llugaeron	3 blynedd
Criafol	8+ blynedd
Helyg y Môr	2 – 3 blynedd
Ysgaw	2 – 3 blynedd

AMODAU AMGYLCHEDDOL

Nid yw cnydau aeron yn addas ar gyfer mannau gwyntog. Oherwydd natur suddog y ffrwyth, mae angen amodau cysgodol. Gellir cael gwell cysgod trwy ddefnyddio mesh plastig gwyrdd wedi ei osod ar byst cryfion. Fel rheol mae angen dyfrhau gan y gellir colli cnwd cyfan ar dymhorau sych. Priddoedd sy'n gynnwys llawer o sylwedd organig sydd orau ar gyfer cynhyrchu aeron. Mae adar yn dueddol o fwyta neu ddifetha llawer o aeron ac efallai y bydd angen rhoi mesh drostynt i warchod y ffrwyth.

AMSERU

Dylai rhai sy'n meddwl cynhyrchu cnydau aeron fod yn ymwybodol o natur dymhorol y cnydau a'r angen i gynnal marchnadoedd. Fel arall, gellir edrych ar bosibiliadau prosesu'r ffrwythau. Yn Nhabl 3 ceir brasamcan o adegau ffrwytho naturiol.

Tabl 3. Adegau ffrwytho rhai cnydau aeron bychain.

Cnwd	Tymor
Mwyar duon ac aeron tebyg	Diwedd haf / hydref
Mafon	Diwedd y gwanwyn i'r hydref (yn dibynnu ar y math)
Mefus	Dechrau i ganol haf
Cyrens (duon, coch a gwyn)	Canol i ddiwedd haf
Llus	Diwedd haf
Llugaeron	Diwedd haf
Criafol	Diwedd yr haf, hydref
Helyg y môr	Diwedd haf
Ysgaw	Diwedd haf

I ddod dros yr anawsterau tymhorol, mae tymhorau'n cael eu hymestyn, yn arbennig ar gyfer mefus a mafon. Nid yw systemau i ymestyn cynhyrchu cnydau eraill wedi cael eu datblygu cystal hyd yma.

MARCHNATA

Mae cynydau ffrwythau bychain yn wynebu sawl risg o ran marchnata. Y risg gyntaf yw cystadleuaeth, yn arbennig o Ddwyrain Ewrop. Felly, dylid ymchwilio i ychwanegu at werth (e.e. prosesu, cynhyrchu organig neu hoffter cwsmeriaid o gynnyrch lleol). Yr ail risg yw gorlwytho'r farchnad ar adeg benodol ac felly dylid edrych ar ymestyn y tymor neu brosesu'r ffrwyth. Y drydedd risg yw natur fyrhoedlog y cnwd, a all ddifetha'n llwyr os na fydd yn cyrraedd y farchnad mewn pryd a chael ei werthu'n gyflym. Dylid ychwanegu un sylw penodol ar lugaeron. Yn achos hwn mae un cwmni mawr yn rheoli'r farchnad ac felly mae'n anodd cystadlu ac eithrio lle gellir cael cwsmeriaid i brynu cynnyrch lleol.

PROSESU

Mae gwahanol ddulliau prosesu'n bosibl. Yn Nhabl 4 crynhoir rhai mathau o brosesu.

Tabl 4. Rhai mathau o brosesu ffrwythau bychain.

Proses	Manteision	Ystyriaethau eraill
Sychu	Oes hir ar silff	Angen offer prosesu
Rhewi	Oes silff amhenodol	Angen cyfleusterau drud
Jamiau / jelliau	Tymor hir	Proses syml
Diodydd	Gwerth ychwanegol	Angen offer potelu
Cyffeithiau	Gwerth ychwanegol	Gall cyswllt arlwygo fod o gymorth

Wrth brosesu ceir cyfleoedd i gydweithio ag eraill o ran y gwaith ei hun a marchnata'r cynnyrch.

DYFODOL FFRWYTHAU BYCHAIN YNG NGHYMRU

Mae llawer o leiniau bychain o dir yng Nghymru yn addas ar gyfer cynhyrchu aeron. Mae'n annhebygol y bydd unrhyw gynhyrchu ar raddfa fawr iawn yn digwydd dros filoedd o aceri, fel a welir ar lannau'r Tay, ond mae yna gyfleoedd i amrywiaethu ac, yn arbennig, i gael cynydau fydd yn rhoi gwerth ychwanegol. Mae hyn yn cyd-fynd â Strategaeth Garddwriaeth Cymru sy'n annog amrywiaethu gyda chnydau.